Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

# Canllaw i’r Ysgol Goedwig yng Nghymru



# // Ysgol Goedwig: Ymagwedd ymarferol at ddysgu

**Mae'r Ysgol Goedwig yn broses ysbrydoledig sy'n cynnig cyfleoedd rheolaidd i blant, pobl ifanc ac oedolion gyflawni, a datblygu hyder a hunan-barch trwy brofiadau ymarferol mewn amgylchedd coetir lleol. Cynhelir sesiynau'r Ysgol Goedwig mewn amgylchedd dysgu mewn coetir sy'n ategu dysgu mewn amgylchedd traddodiadol fel yr ystafell ddosbarth neu dir yr ysgol.**

Nid yw'r sesiynau dan arweiniad amserlen neu lyfr gwaith, ond maent yn cael eu gyrru gan y dysgwyr eu hunain, yn tynnu ar eu diddordebau a'u dychymyg. Trwy sesiynau wedi'u strwythuro'n ofalus gydag ymyriad cefnogol gan arweinwyr cymwysedig, gall yr Ysgol Goedwig ddod â dysgu'n fyw mewn cyd-destun gwirioneddol a diriaethol.



# // Elfennau Hanfodol



## Y 3 elfen hanfodol sy'n gwneud 'Ysgol Goedwig' yn Ysgol Goedwig

### 1. Defnyddio coetir neu leoliad 'coediog' lleol

Mae dysgwyr yn ymweld â'r un coetir lleol dros gyfnod estynedig o amser, yn sefydlu perthynas arbennig â'r safle, wrth iddynt weld y trawsffurfiadau trwy'r tymhorau drostynt eu hunain.

Mewn cyfnod pan mae adroddiadau yn ein hysbysu ni'n gyson bod dysgwyr yn cael eu dieithrio o'r amgylchedd naturiol, mae'r Ysgol Goedwig yn cynnig cyfle i ddysgwyr ailgysylltu â natur mewn lleoliad swynol ac ysgogol.

### 2. Arweinydd cymwysedig

Mae'r Ysgol Goedwig yn cael ei rhedeg gan Arweinydd Ysgol Goedwig Lefel 3 cymwysedig (naill ai BTEC neu Agored Cymru) sydd wedi cael gwiriad DBS ac yn gymwysedig mewn Cymorth Cyntaf. Mae arweinwyr yn dod o amrywiaeth o gefndiroedd, gan gynnwys perchnogion coetiroedd, athrawon, crefftwyr, arbenigwyr y blynyddoedd cynnar a gweithwyr ieuenctid. Er mwyn cymhwyso, mae arweinwyr yn cyflawni cwrs hyfforddi llym sy'n rhoi'r wybodaeth ymarferol a damcaniaethol iddynt ar gyfer rhedeg sesiynau'r Ysgol Goedwig. Yn gyfrifol am lunio asesiadau effaith ecolegol ac asesiadau risg o safle a gweithgareddau'r Ysgol Goedwig, mae arweinydd yr Ysgol Goedwig hefyd yn gyfrifol am sicrhau y glynir wrth weithdrefnau amddiffyn plant ac iechyd a diogelwch. Os oes rhywun yn dod atoch yn cynnig cynnal Ysgol Goedwig, dylent allu dangos y tystysgrifau cymhwysedd perthnasol i chi.



// Galluogi arweinwyr i adeiladu perthnasoedd ymddiriedus â'r dysgwyr

### 3. Ymweliadau rheolaidd

Mae ymweliadau wythnosol rheolaidd i'r un coetir dros gyfnod estynedig o amser (yn anelu at isafswm o deg wythnos hyd at flwyddyn), yn caniatáu amser a rhyddid i ddysgwyr archwilio'n annibynnol ar gyflymder eu hunain. Wrth iddynt ddod yn gyfarwydd a'r safle Ysgol Goedwig, mae synnwyr o berchnogi a dibryder yn amgylchedd y coetir yn datblygu, mae dysgwyr yn dod yn gyffrous ynglŷn ag ailymweld â'u coetir 'nhw'.

Oherwydd natur gylchol yr ymweliadau, gellir cyflwyno tasgau sy'n cynyddu o ran cymhlethdod a sgil wythnos ar ôl wythnos, megis adeiladu lloches a chynnau tân, i hwyluso dysgu cyfranogwyr wrth roi'r cyfle iddynt ailymweld a pharhau â thasgau a ddechreuwyd yr wythnos flaenorol. Mae ymweliadau niferus hefyd yn galluogi arweinwyr i adeiladu perthynas ymddiriedus â'r dysgwyr ac maent yn dod i adnabod anghenion a diddordebau pob plentyn.

# // Cyfle i gymryd risgiau



> // Galluogi nhw i archwilio a darganfod yn annibynnol wrth wneud penderfyniadau gwybodus am sut i ymdrin â sefyllfaoedd

## Ysgol Goedwig yn **rhoi'r cyfle** i **gymryd risgiau**

Mae diogelwch a lles y dysgwr yn flaenoriaeth mewn Ysgol Goedwig. Gosodir a chytunir ar reolau ar y cyd gan arweinwyr a dysgwyr fel ei gilydd, i reoli a lleihau risg. Wrth ailymweld â nhw'n gyson ym mhob sesiwn, mae dysgwyr yn dysgu i adnabod risgiau, pam bod y rheolau'n angenrheidiol, a dysgu sut i fod yn ddiogel yn amgylchedd yr awyr agored. Ymhen amser, maent yn dechrau asesu risgiau eu gweithrediadau drostynt eu hunain yn isymwybodol, gan eu galluogi nhw i archwilio a darganfod yn annibynnol wrth wneud penderfyniadau gwybodus am sut i ymdrin â sefyllfaoedd a heriau anghyfarwydd megis dringo coed, defnyddio offer a sblasio mewn pyllau.

Mae cymarebau uchel oedolion i ddysgwyr yn sicrhau y gall dysgwyr ymestyn ffiniau eu dysgu a'u galluogi nhw i gymryd risgiau na fyddai'n bosibl yn yr ysgol, er enghraifft tostio malws melys ar dân mewn coetir. Mae grwpiau o faint llai hefyd yn golygu bod gan ddysgwyr yr amser a'r gefnogaeth i geisio meistroli tasgau mwy cymhleth megis clymu clymau a gwneud chwibanau gydag oedolion ger llaw i helpu ac annog, os oes angen. Yn y fath leoliad, mae llai o ofn methu, gan fod amser i gael tro arall neu wella bob amser. Mae'r tasgau a'r risgiau hyn a reolir yna'n cyflwyno buddion cymryd risgiau i oedolion a myfyrwyr.

> Cynhelir sesiynau ym mhob tywydd, ar wahân i dywydd eithafol/gwyntog iawn. Dros amser, gall hyn arwain at fwy o wydnwch corfforol a meddyliol at fod yn yr awyr agored mewn unrhyw dywydd.



# // Manteision ac Ymchwil

Mae llawer o ymchwil wedi bod i ganfod beth yw manteision mynychu Ysgol Goedwig. Yn draddodiadol, mae ymchwil wedi dangos bod Ysgol Goedwig o fudd neilltuol i bobl ifanc a dysgwyr anfodlon sy'n ymlafnio yn amgylchedd dysgu'r ystafell ddosbarth ffurfiol. Mae gwaith ymchwil diweddar hefyd wedi dangos bod mynychu Ysgol Goedwig yn gallu bod o fantais arwyddocaol i'r holl ddysgwyr ar unrhyw gam o'u datblygiad, ac ar lefelau iechyd a lles corfforol.

Yn ystod 2006, cynhaliwyd rhaglen Ysgol Goedwig 14 wythnos gan Swyddog Addysg o Gomisiwn Coedwigaeth Cymru (Cyfoeth Naturiol Cymru – CNC), a oedd yn cynnwys dau ddosbarth o Ysgol Pentre, ysgol gynradd bentref fechan ym Mhentre, ger Y Waun, gogledd Cymru. Trwy ddefnyddio model wedi ei gynnig gan y Sefydliad Economeg Newydd (NEF)/ Forest Research, ymgymerwyd ag ymarferiad bwrdd stori i sefydlu cynigion a damcaniaeth sylfaenol i Ysgol Goedwig:

**Dyma oeddent:**

- Cynyddu hunan-barch a hunanhyder
- Gwella sgiliau cymdeithasol
- Datblygu sgiliau iaith a chyfathrebu
- Gwella sgiliau echddygol corfforol
- Gwella cymhelliant a chanolbwyntio
- Cynyddu gwybodaeth a dealltwriaeth am yr amgylchedd
- Safbwyntiau newydd i'r athrawon, arweinwyr, dysgwyr a'r rhieni sydd ynghlwm ag Ysgol Goedwig





Er mwyn casglu tystiolaeth, arsylwyd ar samplau o ddysgwyr o bob dosbarth yn ystod sesiynau Ysgol Goedwig. I olrhain a oedd yr ymddygiad a welwyd yn cefnogi'r cynigion, roedd ymddygiad dysgwyr y sampl yn cael ei arsylwi yn wythnosol gan yr arweinwyr a'r athrawon gan ddefnyddio templedi cofnodi data.

Roedd yr holl ddysgwyr a gymerai ran yn llenwi dyddiaduron Ysgol Goedwig a gofynnwyd hefyd i'w rhieni lenwi dwy ffurflen werthuso yn ystod y rhaglen. Pan ddaeth y rhaglenni i ben, cynhaliwyd gweithdai adolygu anffurfiol wedi eu seilio'n llac ar yr adran uchafbwyntiau ac isafbwyntiau y poster gwerthuso a ddisgrifir yn adroddiad NEF, gyda'r dysgwyr, yr athrawon a'r cynorthwywyr dosbarth.

> Wedi casglu a dadansoddi'r wybodaeth gan bawb, roedd hi'n amlwg bod newidiadau ymddygiad sylweddol wedi digwydd yn erbyn pob un o'r cynigion penodedig.

# // Manteision ac Ymchwil

## Gwella hunan-barch a hunanhyder

Nodweddir gan y parodrwydd i gynnig rhywbeth newydd a theimlo'n foddhaus a dangos balchder gyda chyflawniad personol. Roedd cynnydd amlwg mewn hunanhyder i'w weld mewn llawer o ddysgwyr yn ystod y rhaglen. Arsylwyd ar blant yn mynd i'r afael â thasgau newydd heb gymorth ac yn siarad gydag ymwelwyr newydd, yn enwedig y plant a oedd yn fwy swil ac yn eu cragen yn yr ysgol.

Dyma athro'n ysgrifennu am fachgen Blwyddyn 1 ar asesiad cychwynnol cyn Ysgol Goedwig:

**'Tueddu naill ai i fod yn llawn hwyliau neu'n isel. Bachgen bach sensitif. Yn aml yn ymddangos nad yw'n gwrando, ond y mae mewn gwirionedd. Yn tyfu'n araf yn ei hyder.'**

**Dyma athro'n ysgrifennu am yr un disgybl ar Asesiad Diwedd y Rhaglen:**

**'Yn dal i fyny ac i lawr o ran hwyliau, ond yn yr ysgol yn llawer mwy hyderus ym mhob maes. Canolbwyntio a hunangred yn llawer gwell.'**

## Gwella sgiliau cymdeithasol

Nodweddir gan fwy o ymwybyddiaeth o ganlyniadau gweithredoedd ar bobl eraill, y gallu caffaeledig i ymgymryd â gweithgareddau gydag eraill drwy rannu arfau a thasgau, neu drwy gymryd rhan mewn chwarae cydweithredol. Sylwodd athrawon ac arweinwyr ar waith tîm cryf yn datblygu a gwnaeth athrawon y sylw bod partneriaethau llwyddiannus yn ffurfio yn yr Ysgol Goedwig rhwng disgyblion a oedd cyn hynny wedi methu â gweithio'n llwyddiannus gyda'i gilydd yn yr ystafell ddosbarth. Sylwai rhai o'r dysgwyr hefyd ar welliannau yn ymddygiad eu hunain. Roedd dyddiaduron yr Ysgol Goedwig yn cynnwys y cwestiwn, 'Wyt ti'n gwneud unrhyw beth yn well ar ôl bod yn yr Ysgol Goedwig?', Ysgrifennodd disgybl Blwyddyn 2 sydd ag ADHD, 'gweithio fel grŵp' (sillafu wedi addasu) ac ar yr un pryd ysgrifennodd disgybl Blwyddyn 1, 'bod yn gall'.

## Cyfrannu at ddatblygiad sgiliau iaith a chyfathrebu

Nodweddir gan ddatblygu defnydd mwy soffistigedig o iaith ysgrifenedig a llafar a ysgogir gan brofiadau gweledol a synhwyraidd eraill y plentyn sy'n cymryd rhan yn yr Ysgol Goedwig. Roedd llawer o'r plant yn dawel a swil gyda'r oedolion dieithr yn ystod yr wythnosau cyntaf. O dipyn i beth, wrth i'r rhaglen fynd yn ei blaen, arsylwyd ar y dysgwyr hyn yn rhannu syniadau gyda pharodrwydd ac yn egluro i ymwelwyr beth oedd rheolau yr Ysgol Goedwig.

**'Wrth fod allan yn cerdded gyda'r teulu ar hyd y gamlas mae'n aml yn sôn am beth sy'n ddiogel a beth sydd ddim,'** oedd sylw un rhiant.

## Gwella sgiliau symud corfforol

Nodweddir gan ddatblygiad stamina corfforol a datblygu sgiliau echddygol manwl yn eu crynswth

- y sgiliau corfforol a'r cydweithrediad sy'n caniatáu symud rhwydd a hawdd o amgylch safle yr Ysgol Goedwig, yn ogystal â datblygu sgiliau echddygol manwl
- defnydd effeithiol ar arfau a'r gallu i wneud adeilweithiau a gwrthrychau, er enghraifft llochesi, ffeuau neu brosiectau celf greadigol. Roedd ychydig o welliant ymysg llawer o'r dysgwyr. Ar ôl bod angen cymorth yn yr ychydig wythnosau cyntaf yn dringo grisiau a mynd dros y gamfa, buan roeddent yn arfer â'r sialensiau corfforol roedd yr Ysgol Goedwig yn eu gosod a gydag anogaeth, roeddent wrth eu boddau yn mynd i'r afael â'r rhain ar eu hunion.

Roedd un disgybl 7 oed, oherwydd ei maint, yn straffaglu yn y dechrau gyda'r pellter i'w gerdded ac roedd hi'n syrthio byth a hefyd am ei bod hi mor llithrig dan draed. Roedd hi'n amlwg yn cynyddu mewn stamina a sgiliau corfforol wrth i'r sesiynau fynd yn eu blaenau. Gyda help llaw roedd hi wedi ymarfer cadw balans ar hyd y goeden a oedd wedi syrthio ac ar fainc o foncyff yn ystod yr wythnosau diweddarach. Roedd hi'n falch dros ben gyda hi ei hun pan lwyddodd, ar y diwrnod olaf, i gerdded dros y ddau foncyff heb gymorth, gydag oedolyn wrth law i'w chysuro.





# // Manteision ac Ymchwil

## Gwella cymhelliant a chanolbwyntio

Nodweddir gan awydd i gymryd rhan mewn gweithgareddau archwilio, dysgu a chwarae, yn ogystal â'r gallu i ganolbwyntio ar dasgau penodol a chanolbwyntio am gyfnodau amser estynedig. Roedd nifer o'r dysgwyr â lefel uchel o gymhelliant ar ddechrau'r prosiect, yn frwd i gymryd rhan ym mhob dim ac yn ymateb yn dda iawn i gwestiynau. O safbwynt canolbwyntio, arsylwyd ar welliannau mawr. Arsylwyd ar ddysgwyr y dywedwyd bod ganddynt lefelau isel o sgiliau canolbwyntio yn canolbwyntio am gyfnodau amser maith, gan wneud gemwaith ysgawen a chwilota am drychfilod. Roedd y sefyllfa lai ffurfiol, fwy ymarferol yn gweddu iddynt.

Roedd disgybl meithrin, a oedd yn ei chael hi'n anodd canolbwyntio yn y dosbarth, yn tueddu i grwydro a gwneud beth a fynnai yn hytrach na chadw at y dasg mewn llaw yn ystod yr ychydig wythnosau cyntaf. Roedd gwerthusiadau'r arweinwyr yn nodi'n aml ei bod hi yn ei byd bach ei hun yn ystod y sesiynau cynnar hynny ac roedd rhaid i'r staff gadw llygad gofalus arni.

Dywedodd un athrawes yn ei dyddiadur myfyriol ar ôl y sesiwn gyntaf yn y coed:

**'Yr unig un i fynd tu hwnt i'r ffiniau.'**

Fodd bynnag, o dipyn i beth, dechreuodd gymysgu ychydig yn well a thyfodd ei lefelau canolbwyntio.

**'Mor fodlon arni'r wythnos yma! Cymerodd ran (am gyfnodau byr) gyda brwdfrydedd (a chefnogaeth), a hoffi chwilio am drychfilod. Pan nad oedd cefnogaeth oedolyn, crwydrai o amgylch ar ei phen ei hun ond yn hapus!'**
Sylw'r athrawes, sesiwn 3.

**'Mynd at Ffion heddiw i holi a allai hi helpu i wneud ei hofferyn cerddorol. Gwelliant mawr, dangos parodrwydd i ymuno am y tro cyntaf erioed!'**
Sylw'r athrawes, sesiwn 5.

## Cyfrannu at wybodaeth a dealltwriaeth dysgwyr o'r amgylchedd

Nodweddir gan barch at yr amgylchedd a diddordeb yn eu hamgylchfyd naturiol, gydag arsylwadau a mewnwelediadau i ffenomenâu natur fel newid yn y tymhorau a'r gallu i adnabod rhywogaethau gwahanol o fflora a ffawna.



Dyma faes gwella o bwys wrth i arweinwyr, athrawon a rhieni wneud sylwadau'n aml ar gynnydd mewn lefel ymwybyddiaeth amgylcheddol a diddordeb mewn bywyd gwyllt y plant. Wrth i'r wythnosau fynd yn eu blaenau, gellid clywed dysgwyr yn sgwrsio ymysg ei gilydd am ba mor dda oedd aroglau'r craf gwyllt a thrafod sut roedd yr haul wedi sychu'r pyllau am ei bod hi'n haf.

**'Mae hi wedi dysgu enwau rhai planhigion ac mae'n eu dangos i mi wrth fynd am dro. Mae hi hefyd yn sôn am yr anifeiliaid sy'n byw yn y coed,' sylw gan riant.** sylw gan riant.

## Safbwyntiau newydd i athrawon, arweinwyr, rhieni a dysgwyr

Nodweddir gan berthynas wahanol yn datblygu rhwng dysgwyr ac athrawon wrth iddynt weld ei gilydd mewn lleoliad gwahanol, dod i ben â sialensiau ar y cyd, a mwy o ddiddordeb gan rieni yn yr Ysgol Goedwig ac agwedd gadarnhaol ati. Gan mai chwarae rhan gefnogol oedd yr athrawon yn hytrach na chyflwyno'r rhaglen, rhoddai gyfle gwerthfawr iddynt wylio'r dysgwyr wrth iddynt fynd ati yn eu gweithgareddau. Mae sylwadau rhieni yn dangos bod llawer o'r dysgwyr â digon o frwdfrydedd am eu profiad yn yr Ysgol Goedwig i fynd ag ef yn ôl i'w bywydau gartref, gan siarad â'u rhieni ar y penwythnosau am beth roeddent wedi bod yn ei wneud yn yr Ysgol Goedwig.

**'Roeddwn wrth fy modd yn gweld y dysgwyr mewn amgylchedd gwahanol. Gwelais ochr arall iddynt – gwych!'**
Sylw athro ar ôl sesiwn 1.

# // Manteision ac Ymchwil



Mae modd lawrlwytho copi o brosiect Gwerthuso Ysgol Goedwig Pentre o'n gwefan **www.cyfoethnaturiolcymru.gov.uk**

Ategwyd y casgliadau hyn gan astudiaeth bellach a wnaed rhwng mis Medi 2009 a mis Gorffennaf 2010 pan fynychodd plant Blwyddyn 3 o Ysgol Llanfair, ger Rhuthun yn Sir Ddinbych, Ysgol Goedwig mewn coetir lleol. Un dimensiwn ychwanegol i'r astudiaeth hon oedd y ffaith bod y rhan fwyaf o'r sesiynau'n cael eu cyflwyno drwy gyfrwng y Gymraeg gyda'r nod o wella'r defnydd cyffredinol o'r iaith yn yr Ysgol Goedwig ac yn y dosbarth.

Dechreuodd ail astudiaeth blwyddyn ym mis Medi 2010 ar y cyd ag Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd (Prifysgol Metropolitan Caerdydd), a fu'n arsylwi ar y plant a'u profiadau Ysgol Goedwig, gan dalu sylw penodol i'w ymglymiad a'u hysgogiad. Roedd y tîm yn gobeithio y gallai'r gwaith hwn ychwanegu at y sail gynyddol o dystiolaeth o arfer yr Ysgol Goedwig a gallai ddarparu syniadau ac argymhellion i eraill sy'n gobeithio cynnal rhaglenni Ysgol Goedwig estynedig.

Y flwyddyn ganlynol, arweiniwyd rhaglen hirdymor arall rhwng mis Hydref 2011 – mis Mehefin 2012 gan Swyddogion Addysg CNC. Mae Ysgol Syr John Rhys yn ysgol gymunedol fach iawn ger Bwlch Nant yr Arian, sef Canolfan Ymwelwyr CNC. Dewiswyd grŵp cymysg o 13 o blant 7-11 oed, gan fod y plant lleol yn aml yn colli allan ar lawer o gyfleoedd i ddysgu yn yr awyr agored. Er gwaetha'r amgylchedd gwledig, daw'r plant o amrywiaeth o gefndiroedd.

Prif fwriad y rhaglen hon oedd meithrin hyder pob un o'r 13 o blant a datblygu rolau mentora rhwng y plant yn y dosbarth. Roedd ymchwiliadau tîm a gweithdai yn yr awyr agored yn annog y plant i gyd-weithio. Datblygodd eu hyder yn gyflym wrth i'r plant ddatblygu sgiliau newydd, a synnwyr o berchnogaeth dros ardal yr Ysgol Goedwig yn ystod y rhaglen.



# // Rhaglen Ysgol Goedwig

**Rhaglen Ysgol Goedwig**
nodweddiadol

- Mae rhaglen nodweddiadol yn golygu bod Arweinydd Ysgol Goedwig cymwysedig Lefel 3 yn siarad â'r dysgwyr, athrawon, rhieni a gwarcheidwaid i ddechrau. Bydd yr arweinydd yn esbonio'r hyn yw Ysgol Goedwig a thrafod pa fath o weithgareddau y bydd y cyfranogwyr yn eu gwneud a beth yw anghenion y dysgwyr.
- Mae safle coetir lleol priodol yn cael ei ddarganfod ac mae Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol yn cael ei gwblhau i sicrhau na fydd y safle'n cael ei ddifrodi'n anadferadwy wrth gynnal y sesiynau. Os yw'n addas, bydd caniatâd perchennog y tir yn cael ei sicrhau a materion o ran yswiriant yn cael eu trefnu.
- Cyn i'r sesiynau ddechrau, cyflawnir asesiad risg o'r safle gan yr arweinydd cymwysedig i sicrhau bod y safle'n ddiogel i'r dysgwyr a'r oedolion ymweld ag ef.
- Cyn mynd â nhw allan i'r coetir, bydd yr Arweinydd Ysgol Goedwig yn dod i adnabod y cyfranogwyr ac ennill eu hyder trwy arwain gweithgareddau yn eu lleoliad addysgol am un neu ddwy sesiwn.
- O dan oruchwyliaeth yr arweinydd cymwysedig, bydd y grŵp yn ymweld â'r un safle coetir lleol yn rheolaidd yn ddelfrydol trwy'r flwyddyn, ond heb fod yn llai nag isafswm o ddeg wythnos, ac eithrio mewn amodau eithafol. Bydd yr arweinydd cymwysedig yn cynnal asesiad risg o'r gweithgareddau cynlluniedig ar gyfer pob sesiwn ac yn gwirio safle'r coetir cyn i'r dysgwyr gyrraedd, am unrhyw newid a all fod wedi digwydd ers y sesiwn ddiwethaf.





- Mae pob sesiwn yn ddysgwr-ganolog, yn seiliedig ar sgiliau ac anghenion y grŵp hwnnw.
- Mae gemau'n cael eu chwarae ac mae tasgau bach y gellir eu cyflawni yn cael eu gosod, fel chwarae cuddio, adeiladu llochesi a gweithgareddau celf yn y coetir. Mae amser chwarae rhydd yn rhan o'r sesiynau ac wrth i gyfranogwyr ddod yn gyfarwydd â threfn yr Ysgol Goedwig, mae ymddiriedolaeth yr arweinwyr ynddynt yn tyfu. Mae defnyddio offer, cynnau tân a choginio yn cael eu cyflwyno o dipyn i beth ochr yn ochr â gweithdrefnau diogelwch llym. Dros amser, wrth i'r dysgwyr ddod yn fwy cyfarwydd ac hyderus, maent nid yn unig yn dysgu sut i ddefnyddio offer yn briodol ac yn ddiogel, ond gall y fath weithgareddau hefyd hyrwyddo ymddiriedolaeth a chodi hunanhyder a hunan-barch.
- Gan ddefnyddio deunyddiau naturiol, mae'r cyfranogwyr yn datblygu sgiliau ymarferol a deallusol, y gellir eu cysylltu â'r Cwricwlwm Cenedlaethol a'r Cyfnod Sylfaen.
- Er mwyn nodi taith ddatblygu'r cyfranogwyr a dathlu eu cyflawniadau, mae sesiwn olaf yr Ysgol Goedwig fel arfer yn cael ei dynodi gan ddigwyddiad i ddathlu lle mae rhieni ac unigolion eraill sy'n ymglymedig â'r rhaglen yn cael gwahoddiad i'w fynychu.

# // Arweinydd Ysgol Goedwig



## Lefel 1 – Cymhwyster mewn Dysgu yn yr Awyr Agored

Mae hyfforddiant ar gael fel cyflwyniad i Ddysgu yn yr Awyr Agored - nid yw'n gymhwyster sy'n caniatáu'r rhai sy'n cymryd rhan i arwain neu i gynorthwyo mewn sesiynau Ysgol Goedwig. Os bydd y 3 uned yn cael eu cwblhau bydd y myfyrwyr yn derbyn Cymhwyster mewn Dysgu yn yr Awyr Agored. Byddai hyn wedyn yn galluogi myfyrwyr i symud ymlaen i hyfforddiant Ysgol Goedwig Lefel 2 a 3. Fodd bynnag, yn dibynnu ar ddiddordebau'r myfyrwyr gall pob uned gael ei gwblhau'n annibynnol. Mae yna gyfanswm o 5 credyd ar gael ar y lefel hon.

Mae yna 3 uned ar gael i fyfyrwyr o 14 oed yn Lefel 1.

- Dysgu, chwarae a datblygu yn yr awyr agored - 1 credyd
- Sgiliau Ymarferol Awyr Agored – 2 credyd
- Iechyd a Diogelwch yn yr Awyr Agored – 1 credyd

## Lefel 2 - Cymhwyster mewn Cynorthwyo mewn Ysgol Goedwig

Mae'r hyfforddiant yn fyrrach, ac wedi cael ei gynllunio ar gyfer pobl gyda llai o brofiad blaenorol o weithio gyda phobl ifanc, neu'r rheiny sydd ond eisiau gweithio fel Cynorthwyydd Ysgol Goedwig - nid yw'r cymhwyster yn caniatáu'r rhai sy'n cymryd rhan i arwain sesiynau Ysgol Goedwig.

**Mae'r cymhwyster i gynorthwyo mewn Ysgol Goedwig yn cynnwys:**

### Unedau Gorfodol

- Cefnogi Dysgu, Chwarae a Datblygu yn yr awyr agored
- Defnydd cynaliadwy o Adnoddau Naturiol
- Sgiliau Ymarferol Awyr Agored
- Cynorthwyo mewn Ysgol Goedwig

I ennill cymhwyster Lefel 2 Ysgol Goedwig ar Lefel Cymhwyster, bydd angen i hyfforddedigion i gyflawni 10 credyd drwy gwblhau'r unedau gorfodol. Bydd y cwrs yn cynnwys tua 50 o oriau dysgu dan arweiniad a chyfartaledd o 30 awr o waith annibynnol.

### Sut i ddod yn **Arweinydd Ysgol Goedwig**

Er mwyn bod yn ymglymedig â chyflwyno'r Ysgol Goedwig, mae'n bwysig ymgymryd â'r hyfforddiant angenrheidiol.

Yng Nghymru, er mwyn gallu arwain a chyflwyno sesiynau'r Ysgol Goedwig, mae'n rhaid bod gan unigolyn:

- Ddyfarniad Ymarferydd Ysgol Goedwig Agored Cymru Lefel 3 neu ddyfarniad arweinydd Ysgol Goedwig BTEC. O 2015 mae angen i fyfyrwyr gwblhau a chyflawni'r Cymhwyster Dysgu yn yr Awyr Agored ar lefel Tystysgrif, gan arbenigo fel Arweinydd Ysgol Goedwig
- Tystysgrif gyfredol mewn Cymorth Cyntaf yn y Gwaith neu Gymorth Cyntaf yn yr Awyr Agored
- Datgeliad DBS uwch






# // Arweinydd Ysgol Goedwig



Mae cymhwyster arweinydd Ysgol Goedwig wedi cael ei gynllunio ar gyfer pobl yng Nghymru â chefndir mewn addysg, gwaith ieuenctid neu debyg, sy'n dymuno cymhwyso i redeg rhaglenni Ysgol Goedwig ar gyfer eu grŵp cleient.

Yng Nghymru, mae cyrsiau Lefel 3 newydd yn cael eu hachredu gan Gymhwyster Dysgu yn yr Awyr Agored Agored Cymru, a ddatblygwyd gan Rwydwaith Hyfforddi Dysgu yn yr Awyr Agored Cymru.

**Mae'r cymhwyster i arwain rhaglenni Ysgol Goedwig yn cynnwys:**

### Unedau Gorfodol

- Cefnogi Dysgu, Chwarae a Datblygu yn yr Awyr Agored
- Defnydd Cynaliadwy o Adnoddau Naturiol
- Arsylwi a Gwerthuso Dysgu yn yr Awyr Agored
- Dysgu Sgiliau Ymarferol yn yr Awyr Agored
- Arweinydd Ysgol Goedwig

Mae'r cwrs yn cynnwys tua 60 o oriau dysgu dan arweiniad a chyfartaledd o 90 awr o waith annibynnol.

Mae hyn yn cynnwys ymchwil annibynnol, a chynllunio a chyflwyno rhaglen Ysgol Goedwig gyda grŵp o ddysgwyr dynodedig am o leiaf chwe wythnos.

Er mwyn ennill Tystysgrif Arweinydd Ysgol Goedwig, fydd yn rhaid i hyfforddedigion gyflawni 15 credyd gan ddefnyddio'r Cymhwyster Dysgu yn yr Awyr Agored, sydd yn cynnwys pasio asesiad arsylwi o arwain sesiwn Ysgol Goedwig.

Sylwer – mae'r cwrs Lefel 3 yn heriol ac yn cymryd llawer o amser ac ni ddylid ei wneud heb feddwl o ddifrif amdano.

Byddai Cyfoeth Naturiol Cymru yn argymell bod unrhyw un sy'n dymuno gwneud y cwrs, yn cymryd rhan mewn sesiwn Ysgol Goedwig, drwy ymweld â lleoliad sy'n rhedeg rhaglen Ysgol Goedwig, cyn ymrwymo i gychwyn yr hyfforddiant.

**I gael rhagor o wybodaeth am hyfforddiant Dysgu yn yr Awyr agored, cysylltwch â:**

**Rhif Ffôn: 0300 065 3000**

**Ebost: addysg@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk**

# // Hanes yr Ysgol Goedwig

## Beth yw **hanes** yr **Ysgol Goedwig** yng **Nghymru** a'r **DU**?

Ym 1993 ymwelodd grŵp o fyfyrwyr y Blynyddoedd Cynnar o Goleg Bridgwater, Gwlad yr Haf â Denmarc a thystio manteision yr Ysgol Goedwig drostynt eu hunain. Ar ôl cyrraedd yn ôl i'r DU, ystyriodd y darlithwyr a oedd gyda'r myfyrwyr sut y gallent gymhwyso'r hyn yr oeddent wedi'i weld i'r ddarpariaeth gofal plant yn eu Canolfan Ragoriaeth Blynyddoedd Cynnar eu hunain, a sefydlu safle Ysgol Goedwig ar dir y Coleg. Yn 2000, derbyniodd y coleg Wobr Pen-blwydd y Frenhines ar gyfer Addysg Uwch ac Addysg Bellach, er mwyn cydnabod ei waith arloesol.

Ers hynny, mae'r cysyniad wedi bod yn lledu trwy Brydain. Cynhaliwyd cwrs hyfforddi Arweinydd Ysgol Goedwig gyntaf Cymru yn Ne Cymru yn ystod 2000, gyda chyfranogwyr yn mynd ymlaen i ddatblygu Ysgol Goedwig yn eu hardaloedd lleol. Ar ôl dod ag arbenigedd o Goleg Bridgwater i gynnal cyrsiau am y flwyddyn gyntaf, yn 2002 dechreuodd aelodau Comisiwn Coedwigaeth Cymru (CNC) a Darlithwyr Colegau Cymru ysgrifennu modiwlau hyfforddi penodol i Gymru. Yn 2003, dilyswyd y modiwlau Lefel 3 hyn gan OCN Cymru (Agored Cymru), a chynhaliwyd rhagor o gyrsiau gyda chyrsiau OCN Lefel 1 a 2 yn cael eu cyflwyno yn 2004.

Roedd 2004 yn flwyddyn bwysig o ran ymchwilio fewn i'r Ysgol Goedwig. Yn dilyn ymchwil a gyflawnwyd mewn Ysgolion Coedwig yng Nghasnewydd a Sir y Fflint, cyhoeddwyd adroddiad y Sefydliad Economeg Newydd ar effaith yr Ysgol Goedwig yn 2004. Datblygodd yr adroddiad hefyd fodel ar gyfer arweinwyr Ysgol Goedwig i werthuso eu sesiynau, sy'n parhau i gael ei ddefnyddio gan arweinwyr heddiw.

Mewn cais i gefnogi hyfforddiant, yn 2007, cynhyrchodd Comisiwn Coedwigaeth Cymru (CNC) DVD '**Ysgol Goedwig yng Nghymru**'. Roedd y DVD hwn yn dangos deg rhaglen Ysgol Goedwig wahanol iawn ac yn dathlu arfer da presennol. Mae clipiau o'r ffilm ar gael ar wefan CNC.

Yn ystod 2008, hyfforddodd y prosiect bedwar arweinydd Ysgol Goedwig Cyfnod Sylfaen i fod yn hyfforddwyr arweinwyr Ysgol Goedwig yn Ne Cymru. Dilynwyd hyn yn 2010 pan fu pedwar o hyfforddwyr eraill ar gwrs peilot Hyfforddwyr Ysgol Goedwig Lefel 4, ac mae hyn wedi arwain at sicrhau hyfforddiant Ysgol Goedwig a Dysgu yn yr Awyr Agored yn y sector preifat yng Nghymru.

Yn 2010 cynhaliwyd y gynhadledd "**10 mlynedd o Ysgol Goedwig yng Nghymru**" fel digwyddiad carreg filltir i ddathlu'r hyn sydd wedi digwydd eisoes a dylanwadu ar gyfeiriad yr Ysgol Goedwig yng Nghymru yn ystod y 10 mlynedd nesaf.

Wrth i fwy a mwy o gyrsiau hyfforddi Ysgol Goedwig gael eu cynnal yng Nghymru gan wahanol ddarparwyr, yn ystod 2006, sefydlwyd Rhwydwaith Hyfforddi Ysgol Goedwig OCN Cymru i sicrhau safon hyfforddi gyffredin yng Nghymru. Wrth ddod â holl hyfforddwyr presennol Ysgol Goedwig Cymru at ei gilydd, mae'r rhwydwaith yn galluogi hyfforddwyr i weithio gyda'i gilydd i wella ansawdd a chysondeb hyfforddiant. Adolygwyd unedau OCN yr Ysgol Goedwig gan y rhwydwaith newydd a chytunwyd arnynt mewn fformat newydd a chyda gwerthoedd credyd newydd. Adolygwyd y rhain a gwnaethpwyd mân newidiadau yn 2010 a chynhaliwyd unedau peilot yn ddiweddarach y flwyddyn honno. Yn 2015 newidiodd y Rhwydwaith Hyfforddi'n Rhwydwaith Hyfforddi Dysgu yn yr Awyr Agored wrth iddo ddechrau defnyddio cyfres newydd o unedau Agored Cymru sy'n arwain at gymwysterau Dysgu yn yr Awyr Agored i'r rheini sydd am arwain grwpiau mewn Rhaglenni Ysgol Goedwig, Ysgol Arfordirol a Dysgu/Chwarae yn yr Awyr Agored.

Rhwng 2011 a 2015 mae'r capasiti hyfforddi yng Nghymru wedi galluogi rhagor o bobl i ddod yn Arweinwyr Ysgol Goedwig ac mae hyn wedi arwain at hyfforddwyr annibynnol yn archwilio ffyrdd eraill o annog gweithwyr addysg proffesiynol i ddefnyddio'r awyr agored i ddysgu, trwy ddatblygu unedau hyfforddi newydd.

Parheir i gynnal cyrsiau hyfforddi pellach, a bydd yr hyfforddiant yn cael ei adolygu a'i fireinio'n gyson gan Rwydwaith Hyfforddi Cymru mewn cydweithrediad â'n cydweithwyr drwy Brydain Fawr, a bydd hyn yn arwain at gynnydd cyson yn nifer yr Arweinwyr Ysgol Goedwig. Mae newid eisoes ar y gweill lle bydd llawer mwy o amrywiaeth o hyfforddiant ar gael i'r rheini sydd wedi'u hysbrydoli i fynd â grwpiau i'r awyr agored i ddysgu a thyfu.





# // Ymchwil

## **Ymchwil** Ysgol Goedwig


**Cook, M. Haughton, C and Velmans, C.** 2012 'Arsylwadau a Myfyrdodau Adroddiad Ysgol Goedwig. Trosolwg o Raglen Ysgol Goedwig Blwyddyn Gyfan gyda Dosbarth Blwyddyn 4.'
www.forestry.gov.uk/pdf/Queens_Wood_Forest_School_Report.pdf/$file/Queens_Wood_Forest_School_Report.pdf

**Davis, B., Rea, T. and Waite, S.** 2006 'The special nature of the outdoors: Its contribution to the education of children aged 3-11', Australian Journal of Outdoor Education 10(2): 3-12
www.oric.org.au/Resources/AJOE_22.html

**Davis, B. and Waite, S.** 2005 'Forest School: Opportunities and Challenges in Early Years', University of Plymouth
www.edu.plymouth.ac.uk/oelresnet/waite.html

**Forest Kindergarten Summary based upon, Borradaile, L.** 2006 'Forest School Scotland: An Evaluation', Forestry Commission Scotland
www.forestry.gov.uk/pdf/...pdf/$file/FKreportAppendix.pdf


**Hughes, F. and Jenner, L.** 2006 'Ysgol Goedwig Pentre: Mawrth – Gorffennaf 2006 – Gwerthudiad o Brosiect Ysgol Goedwig', Comisiwn Coedwigaeth Cymru.
www.cyfoethnaturiol.cymru

**Maynard, T.** 2007 'Forest Schools in Great Britain: An initial exploration', Contemporary Issues in Early Childhood 8(4): 320-331
dx.doi.org/10.2304/ciec.2007.8.4.320

**Murray, R. and O'Brien, E.** 2004 'Forest School Evaluation Project - A Study in Wales', New Economics Foundation
www.forestry.gov.uk/pdf/ForestSchoolWalesReport.pdf/$FILE/ForestSchoolWalesReport.pdf

**Murray, R. and O'Brien, E.** 2005 'Such enthusiasm – a joy to see' - An evaluation of Forest School in England', Forest Research
www.forestry.gov.uk/pdf/ForestSchoolEnglandReport.pdf/$file/ForestSchoolEnglandReport.pdf

**Murray, R. and O'Brien, E. 2006** 'A marvellous opportunity for learners to learn - A participatory evaluation of Forest School in England and Wales', Forest Research
www.forestry.gov.uk/pdf/fr0112forestschoolsreport.pdf/$FILE/fr0112forestschoolsreport.pdf


**Pavey, B.** 2005 'The Forest School and Inclusion: a project evaluation'
www.leeds.ac.uk/educol/documents/161165.htm

**Swarbrick, N., Eastwood, G. and Tutton, K.** 2004 'Self-esteem and successful interaction as part of the forest school project', Support for Learning 19(3): 142-146
bldss.bl.uk/BLDSS/#/New Order/0

**Astudiaeth arbrofol i sut mae chwarae mewn amgylchedd coedwig yn llesol i sgiliau corfforol ac echddygol plant yw'r papur isod**

**Fjørtoft, I.** 2001 'The Natural Environment as a Playground for Children: The Impact of Outdoor Play Activities in Pre-Primary School Children', Early Childhood Education Journal 29(2): 111-117
proceedings.esri.com/library/userconf/proc00/professional/papers/PAP462/p462.htm

# // Cyfoeth Naturiol Cymru ac Ysgol Goedwig

Mae **Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC)** yn cefnogi Rhwydwaith Hyfforddi Dysgu yn yr Awyr Agored Cymru ac mae'n cynnal nifer cyfyngedig o ddigwyddiadau hyfforddi bob blwyddyn yn ddibynnol ar y galw. Mae pob Swyddog Addysg CNC yn Arweinydd Ysgol Goedwig cymwys neu wrthi'n derbyn hyfforddiant. Mae CNC yn gweithio mewn partneriaeth â'r sector preifat i gael y capasiti hyfforddi uchaf yng Nghymru. Mae'r holl luniau sy'n ymddangos yn yr adroddiad hwn wedi cael eu tynnu mewn sesiynau Ysgol Goedwig sydd wedi cael eu cynnal yng Nghymru.

## Gwefannau defnyddiol

**Rhwydwaith Dysgu yn yr Awyr Agored Cymru**
**www.outdoorlearningwales.org/home**

**Mae Dysgu Awyr Agored Cymru (DAAC) yn rhwydwaith cenedlaethol sy'n anelu at gynyddu dealltwriaeth, gwerthfawrogiad a defnydd cynaliadwy o amgylchedd naturiol Cymru.**

Gallwch gael y cyhoeddiad hwn mewn print bras ac mewn ffurfiau eraill (e.e. Braille, tâp sain) drwy gysylltu â CNC ar y rhif ffôn neu'r cyfeiriad ebost isod:

**Cyfoeth Naturiol Cymru**
**Ffôn: 0300 065 0300**
**Ebost: addysg@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk**

Mae'r holl ddelweddau yn © Hawlfraint y Goron o Lyfrgell Lluniau CNC oni bai y nodir fel arall

Cyhoeddwyd Ebrill 2015

RECYCLED
Paper made from recycled material
FSC® C005094

Argraffwyd ar Revive offset papur wedi'i ailgylchu 100%



Design: www.fbagroup.cymru NRW2429 04/2015